CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETHAU PENSIYNAU CYMRU

9 RHAGFYR 2019

DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

ARGYMHELLION / Y PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SY'N OFYNNOL:

Derbyn diweddariad gan yr awdurdod lletya

RHESYMAU:

Yr awdurdod lletya i roi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol a ganlyn:

- Llywodraethu
- Sefydlu parhaus
- Gwasanaethau gweithredwr
- Cyfathrebu ac adrodd
- Hyfforddiant a chyfarfodydd
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd

Awdur yr Adroddiad:	Swydd:	Rhif Ffôn 01267 224160
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**E-bost:** **CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

9 RHAGFYR 2019

DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA
CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD Cytunwyd ar Gynllun Gwaith 2019/20 gan y Cydbwyllgor Llywodraethu ar 27 Mawrth 2019. Dogfen waith yw hon fydd yn cynorthwyo Partneriaeth Pensiynau Cymru i gyflawni ei amcanion a'i nodau cyffredinol am y flwyddyn. Mae cynllun gwaith 2019/20 wedi'i ddiweddaru ynghlwm. Gweithiwyd ar nifer o weithgareddau yn ystod y misoedd diwethaf, sy'n cael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor heddiw er cymeradwyaeth: • Datganiad credoau • Matrics llywodraethu • Cynllun cyfathrebu • Cynllun Hyfforddi 2019/20 Camau nesaf / Blaenoriaethau: • Parhau i weithio ar ddatblygu'r cynllun busnes • Parhau gyda gwaith yr is-grŵp marchnadoedd preifat i ddiffinio'r anghenion ar gyfer asedau anhylif • Penodi asiant pleidleisio drwy ddirprwy oddi ar y Fframwaith Cenedlaethol - (*Stewardship Advisory Services*) a datblygu polisi pleidleisio. Meysydd allweddol eraill: • Mae BlackRock wedi'i benodi fel y Rheolwr Trawsnewid Incwm Sefydlog, a bydd y trawsnewid yn digwydd ym mis Ionawr 2020. • Datganiad i'r wasg ar Bolisi Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth - mae'r datganiad i'r wasg ynghlwm wedi'i ddarparu.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Bydd y dogfennau polisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys y datganiad credoau, matrics llywodraethu, cynllun cyfathrebu a chynllun hyfforddiant, yn ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhelir i'w cynnwys yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 - Mynediad at Wybodaeth **Rhestr o'r Papurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:** **GWELER MANYLION ISOD**		
Teitl y Ddogfen	**Rhif Cyfeirnod Ffeil**	**Lleoliad y mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael eu gweld/DOLEN I'R WEFAN**